

Hysbysiad Preifatrwydd – Cwynion allanol yn erbyn yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Gwybodaeth am y polisi preifatrwydd ar gyfer casglu gwybodaeth yn uniongyrchol gan unigolion mewn perthynas â chwynion allanol yn erbyn yr ASB.

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yw 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

Pam fod angen yr wybodaeth hon arnom ni?

Mae angen i ni gasglu'r wybodaeth hon at ddibenion gweinyddu, prosesu ac ymateb i gwynion a gyflwynir yn erbyn yr ASB o dan ei gweithdrefn gwyno sydd ar gael yn allanol.

Mae casglu'r wybodaeth hon yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a gyflawnir wrth arfer awdurdod swyddogol sydd gennym ni neu er budd y cyhoedd. Ni fyddwn ni'n casglu unrhyw ddata personol gennych chi nad ydym ni ei angen.

Gallai methiant i ddarparu'r wybodaeth arwain at fethiant i brosesu cwyn sy'n cael wneud yn erbyn yr ASB.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?

Dim ond am y cyfnod sydd ei angen i gyflawni'r swyddogaethau hyn rydym ni'n cadw gwybodaeth bersonol, ac yn unol â'n polisi cadw. Mae hyn yn golygu y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chadw am dair blynedd ar ôl i achos ddod i ben (lle mae'r achos yn cyrraedd hyd at (a gan gynnwys) 'Cam Un' o'n gweithdrefn gwyno) neu bum mlynedd (lle mae'r achos yn cyrraedd 'Cam Dau' o'n gweithdrefn gwyno, lle mae'n cael ei gyfeirio at Ombwdsmon y Senedd a'r Gwasanaeth Iechyd neu ei fod yn cael ei ystyried i osod cynsail).

Mae'r holl ddata personol rydym ni'n ei brosesu yn byw ar weinyddion o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi'u caffael drwy Gytundebau Fframwaith y Llywodraeth a'u hasesu yn erbyn egwyddorion cwmwl y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partïon fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Yn unol â'r ymrwymiad hwn, gallai eich gwybodaeth gael ei throsglwyddo i Ombwdsmon y Senedd a'r Gwasanaeth Iechyd.

Beth yw eich hawliau?

Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth rydym ni'n ei phrosesu amdanoch chi yn anghywir, gallwch chi wneud cais i'w chywiro. Os hoffech chi wneud cwyn am y ffordd rydym ni wedi trin eich data personol, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych chi'n fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data

personol yn unol â'r gyfraith, fe allwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).